

# CROESO I GYLCHLYTHYR CARFAN DATBLYGU'R GYMUNED - RHCT GYDA'N GILYDD

RHIFYN: 02  
C2 GORFFENNAF - MEDI 2023



[RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda  
Cynon Taf \(rctcbc.gov.uk\)](https://www.rctcbc.gov.uk)

## Cynnwys:

Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned  
a Rhwydweithiau Cymdogaeth -  
tudalen 2

Cymorth i Drigolion - tudalen 3

Trosglwyddo Asedau Cymunedol -  
tudalen 4

Cyllid ac Adnoddau - tudalen 5-6

Cymunedau sy'n Oed Gyfeillgar -  
tudalen 7

Achlysuron ar y gweill - tudalen 8

Manylion cyswllt - tudalen 9

# Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned a Rhwydweithiau Cymdogaeth

Yn ystod Chwarter 2, cafodd 22 o gyfarfodydd Rhwydweithiau Cymdogaeth eu cynnal gyda 252 o grwpiau a sefydliadau cymuned wedi'u cynrychioli o bob cwr o Rionda Cynon Taf.

Er mwyn taro goleuni ar weithgareddau cymunedol yn ymwneud â dementia yn ystod y chwarter yma, dyma restr o rai o'r achlysuron mae RhCT Gyda'n Gilydd wedi'u cefnogi.

## Gogledd Cwm Rhondda:

Cynhaliodd *Action for Maerdy* ei achlysur rhedeg/cerdded neu wthio 5k hwyliog gyntaf ar fore Sul gwyntog a glawog, a daeth 26 o bobl i gymryd rhan a nifer o wylwyr ar hyd y ffordd yn cefnogi.



Gogledd Cwm Cynon:  
Sicrhaodd y Fforwm 50+ gyllid Rhwydwaith Gymdogaeth er mwyn ymweld â'r Bathdy Brenhinol - "Diolch yn fawr am ein helpu ni i dderbyn y grant yma. Rydyn ni wir yn gwerthfawrogi eich cymorth er mwyn trefnu'r daith".



De Cwm Cynon:  
Mae grŵp henoed Abercwmboi wedi derbyn cyllid yn rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin/NN i gynnal gweithgareddau i bobl sy'n teimlo'n unig - "Hoffwn ddiolch i garfan Gyda'n Gilydd RhCT am y gefnogaeth - mwynhaodd pawb yn y grŵp y weithgaredd yn fawr".

😊  
Diolch

De-ddwyrain Taf-elái

😊  
Diolch



De-orllewin Taf-elái

😊  
Diolch

## Gogledd-ddwyrain Taf-elái: Hwb Dementia Dros Dro

"Roedd yr achlysur yma'n wych. Rydw i wedi derbyn 5 atgyfeiriad heddiw gan bobl sydd angen cymorth ar gyfer aelod teulu sy'n byw â dementia".

"Rwy'n credu y byddai'n fuddiol iawn cynnal achlysuron tebyg mewn ardaloedd eraill gan fy mod i'n credu bod angen i ragor o bobl gwrrd â'n carfan ni wyneb yn wyneb".

De Cwm Rhondda:  
Mae ein haelodau i gyd wedi derbyn hyfforddiant Cyfeillgar i Ddementia



## Cymorth i Drigolion

Mae modd i drigolion Rhondda Cynon Taf ofyn am gymorth gan y gymuned pan fydd ei angen arnyn nhw fwyaf. Mae Cydlynwyr Cymunedol yn ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol sy'n gallu helpu gyda:

- Siopa/anghenion bwyd
- Galwad ffôn gyfeillgar i gadw mewn cysylltiad
- Dod o hyd i waith, neu gael hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith
- Gwybodaeth ac arweiniad am arian neu fudd-daliadau
- Gwybodaeth am y gwasanaeth llyfrgell 'gartref'
- Gwybodaeth am y gwasanaeth 'Lifeline Plus'
- Cymorth lles os ydych chi'n teimlo'n unig neu'n ynysig neu pe hoffech chi gysylltu â grŵp cymunedol yn eich ardal leol
- Aseiad lles - gall hyn gynnwys ymweliadau â'ch cartref i drafod eich anghenion

Mae modd i unrhyw un ofyn am gymorth ar unrhyw bryd, a hynny ar eu cyfer nhw eu hunain neu ar gyfer unigolion y maen nhw'n eu hadnabod. Mae modd gwneud hyn drwy lenwi'r ffurflen syml ar-lein yma: [Cymorth Trigolion| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(rctcbc.gov.uk\)](https://www.rctcbc.gov.uk)

Y llynedd (Ebrill 2022 - Mawrth 2023), ymatebodd y garfan i 672 o geisiadau am gyngor, gwybodaeth a chymorth. Dywedodd 64% o'r bobl yma bod angen cymorth arnyn nhw oherwydd effaith uniongyrchol yr Argyfwng Costau Byw.

Hyd yn hyn eleni (Ebrill 2023-Medi2023) mae'r garfan wedi derbyn:

**337 o geisiadau gan drigolion am gymorth â'r canlynol:**



**Bwyd neu gymorth yn ymwneud â bwyd - 156**



**Gwybodaeth ac arweiniad am arian neu fudd-daliadau - 86**



**Taleb archfarchnad untro - 205**

"Diolch yn fawr am yr alwad ffôn ac am wrando arna i. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud heb eich cymorth."

"Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr er mwyn dewis bwyd gall eich plant ei fwyta."

"Diolch am eich cymorth. Bydda i'n rhannu'r wybodaeth yma â fy nhad pe bydd angen. Rydych chi a charfan Gwasanaethau i Oedolion wedi bod yn wych!"



# Trosgrwyddo Asedau Cymunedol

Derbynion ni 43 ymholiad cyffredinol am gymorth yn ystod y cyfnod yma. Cwblhawyd 38 o ymholiadau. Mae 47 ymholiadau CAT yn parhau ac mae 3 ohonyn nhw bron wedi'u cwblhau.

# Gweithio gyda'n gilydd...i gefnogi pyllau i blant bach a phad sblasio cymunedol.

Dros gyfnod yr haf eleni, mae carfan CAT RhCT Gyda'n Gilydd a chydweithwyr o Wasanaethau Hamdden ac Eiddo'r Cyngor wedi helpu a chefnogi grwpiau cymuned yn Abercynon, Glynrhedynog, Penrhiw-ceibr, Treorci ac Ynys-y-bwl i agor eu pyllau i blant bach a phad sblasio Cyfeillion Parc Aberdâr. Mae pawb yn gweithio'n galed trwy gydol y flwyddyn i baratoi'r pyllau ar gyfer y cannoedd o blant a'u teuluoedd o gymunedau ledled RhCT sy'n elwa o'r profiadau cadarnhaol a'r mwynhad wrth ddefnyddio'r pyllau a'r padiau sblasio.

Ym mis Hydref, aeth y Cynghorydd Harris, swyddogion o Eiddo'r Cyngor a'r garfan Datblygu'r Gymuned i gwrdd â'r grwpiau perthnasol er mwyn adolygu gweithgareddau haf eleni ac i gynllunio ar gyfer 2024. Rydyn ni wrthi'n cynllunio er mwyn cynorthwyo grwpiau ar gyfer 2024, ac er mwyn bod yn fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Os oes gyda chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli ar gyfer 2024, cysylltwch ag Interlink neu eich grŵp agosaf...[\*\*Gwirfoddoli -\*\*](#)

## [\*\*Interlink\*\*](#)

## **Peidiwch â thanbriso gwerth cymdeithasol gweithgareddau cymunedol (effaith llesol)**

Mae'r garfan yn defnyddio 'Dirnadaeth Gwerth', sef pecyn cymorth ar-lein yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn darparu Gwerth Cymdeithasol nifer o weithgareddau. Mae modd defnyddio'r pecyn er mwyn cefnogi penderfyniadau wrth wneud cais am ostyngiadau rhent, penderfyniadau cyllido a thrafodaethau am drosglwyddo asedau. Dyma rai enghreifftiau o ddeiliannau a'u gwerthoedd cymdeithasol perthnasol:

- Gwirfoddoli cyffredinol = £3,741 y pen
- Aelod o grŵp cymdeithasol = £1,717 y pen
- Ymarfer corff ysgafn anghyson = £3,638 y pen
- Ymarfer corff cymedrol anghyson = £4,284 y pen
- Rhyddhad o iselder/gorbryder (oedolyn) = £20,722 y pen

Mae Adroddiadau Gwerth Cymdeithasol y cyfnod yma wedi'u darparu ar gyfer 5 grŵp cymunedol ac maen nhw ar gael oddi wrth y garfan am ddim!!


Gwyliwch y fideo yma gan grŵp CATS "[\*\*Little Lounge Basement\*\*](#)" yn Neuadd Cymuned Cilfynydd.

Clwb Tennis Llantrisant - "Hoffwn ysgrifennu atoch chi'n ffurfiol er mwyn diolch am y cymorth a'r arweiniad derbyniais gennych chi er mwyn cwblhau'r ceisiadau grant. Chi yw un o'r unigolion mwyaf cwrtais, cynorthwyol a gweithgar rwy wedi gweithio â nhw yn Rhondda Cynon Taf ac rwy' wir yn gwerthfawrogi eich gwaith. Mae gyda ni ddigon o arian i gwlbhau cam olaf ein cynllun datblygu ac rydych chi wedi ein helpu ni i gyrraedd y nod honno. Unwaith eto, diolch o galon!"

## **Cyfle i wirfoddoli - 30 diwrnod**

Pan fydd asedau dros ben gan y Cyngor sydd ar gael ar gyfer Trosgrwyddiad Asedau Cymunedol (fel arfer, trwy brydles), byddwn ni'n hysbysebu'r asedau yma am 30 diwrnod ar wefannau'r Cyngor a Chysylltu RhCT er mwyn i unrhyw sefydliad cymunedol "ddim er elw personol", menter cymdeithasol neu gyngor Tref neu Gymuned gyflwyno ffurflen mynegi diddordeb. Mae hyn yn ffordd deg a chyfiawn o alluogi cynigion gan grwpiau cymuned i'w hystyried. Yn ystod mis Awst, aethon ni ati i hysbysebu darn o dir ym Mryn y Rhedyn (hen safle twnelau polythen). Ni gyflwynwyd unrhyw ffurflenni mynegi diddordeb. Bwriwch olwg ar y wefan [\*\*Tir - cyfleoedd trosglwyddo\*\*](#) a [\*\*Cysylltu RhCT\*\*](#).

**Gwerthdai Fit 4 Funding**  
Trwy weithio ag Interlink a nifer o gyllidwyr a phartneriaid, mae'r garfan wedi cefnogi tri gweithdy Fit For Funding mewn lleoliadau ledled Rhondda Cynon Taf ym mis Gorffennaf. Daeth cyfanswm o 124 o bobl i'r achlysuron. Dyma ddolen i gyflwyniad [\*\*Fit For Funding\*\*](#)



Mae hefyd modd i ni ddarparu Adroddiad Dirnadaeth Cymunedol sy'n cynnwys manylion am ddemograffeg allweddol cymunedau lleol. Cysylltwch â'r garfan am ragor o wybodaeth.

**Friends of Treorchy Park**  
**PADDLING POOL**

**OPENING PARTY!**  
Saturday 22nd July  
with Hokey Cokey Entertainments and Rhondda Radio

Open 11am to 5pm 7 days a week from 21st July to 3rd September

To help with the cost of living crisis, and thanks to support from the UK Shared Prosperity Fund, we are able to offer each child a free meal each Wednesday. We will also have free fruit for the children each day thanks to a donation from Councillor Sera Evans's community fund. All of the above is subject to availability.

**KIDS EAT FREE ON WEDNESDAYS**

Pen Y Cymcedd  
Newham Community Fund CIC

LOVE WIRET YOU LOVE

A huge shout out to volunteers and staff for all the time they've dedicated over the last 40 days. The pool wouldn't run without all the effort from lifeguards, kitchen staff, grounds people and trustees. Thank you also to volunteers from St Winifred's Church Penrhiwceibr for helping to deliver Fit & Fed



## Cyllid ac Adnoddau - Grantiau

### Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Grant Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf

- Rhwng Ebrill 2022 a Medi 2023, derbyniodd 121 o sefydliadau grantiau cyfalaf gwerth £183,262 a grantiau refeniw gwerth £1,746,651.
- Mae 31 sefydliad arall wedi derbyn grantiau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2024-25. Grant cyfalaf = £45,500, refeniw = £814,831.
- Mae'r cyfnod ymgeisio ar gyfer 2023-24 wedi dod i ben, ond cadwch lygad am ein hachlysuron cymuned arferol sy'n cael eu cynnal gan Interlink RhCT ar gyfer 2024-25.

### Diweddariad 2022-23

Mae 8,893 yn rhagor o drigolion RhCT wedi ymgysylltu â chymorth neu weithgareddau yn y gymuned o ganlyniad i Gyllid Grant Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.



### Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Microgrant Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf

Grantiau gwerth hyd at £1,000 yn darparu gweithgareddau cymuned/cymorth â bwyd i breswylwyr.

Mae 92 o sefydliadau wedi derbyn grantiau gwerth £85,714.00

#### Grant Urddas Mislif yn y Gymuned Llywodraeth Cymru

Dyfarniadau (cynhyrchion) gwerth hyd at £30,065 wedi'u darparu i 31 o sefydliadau cymuned. Mae pecynnau cyfyngedig o gynhyrchion yn dal i fod ar gael hyd at fis Mawrth 2024.

Canolfannau Croeso yn y Gaeaf/Cronfa Caledi'r Gaeaf - mynegwch ddi-ddordeb nawr

Mae dyfarniadau gwerth hyd at £2,000 ar gael. Bydd y cyfnod gwneud cais yn dod i ben ddydd Gwener, 10 Tachwedd 2023. Mae Cronfa Caledi'r Gaeaf ar gael i gefnogi Canolfannau Croeso yn y Gaeaf cofrestredig ledled RhCT.

#### Cronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth

Dyfarniad gwerth hyd at £1,000. Gweithgareddau yn y Gymuned Hyd yn hyn, mae 69 sefydliad wedi derbyn cyfanswm o £49,046.

#### Grant Cymorth â Bwyd - gwnewch gais nawr.

Dyfarniad gwerth hyd at £1,000. Cymorth uniongyrchol â bwyd i breswylwyr. Hyd yn hyn mae 13 o sefydliadau wedi derbyn cyfanswm o £12,534 o ddyfarniadau grant. Mae Trivallis yn darparu arian cyfatebol i'r Gronfa Cymorth â Bwyd.

**Cysylltwch â'r garfan am ragor o wybodaeth.**

**FFYNIANT  
— BRO —**



**UK Government Wales  
Llywodraeth y DU Cymru**

**LEVELLING  
— UP —**





# Cyllid ac Adnoddau

## **Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - Gwobr Efydd**

Cyflwynwyd cais CBSRhCT i'r Wobr Efydd ar 5 Medi 2023. Rydyn ni'n gobeithio cyflawni'r wobwr yma, ac yn aros i glywed am y canlyniad ym mis Tachwedd 2023.

## **Cydlynnydd Bwyd Cynaliadwy Newydd**

Rydyn ni'n falch iawn o groesawu ein Cydlynnydd Bwyd Cynaliadwy newydd, Rhiannon, a fydd yn ymuno â'r garfan ym mis Rhagfyr 2023. Bydd hi'n parhau â gwaith Sam Evans.

## **Cyfleuster Cymuned y Gilfach-goch**

### Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - Ailwampio'r Cynnig Bwyd

Mae'r Cyfleuster Cymuned yn y Gilfach-goch yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Mae prydau bwyd iach a chynaliadwy yn cael eu gweini yno 5 diwrnod y wythnos. Mae'r prydau yn costio £4.50 am 2 gwrs.

Mae gweithgareddau a dosbarthiadau megis gwnio, boreau coffi a bingo yn cael eu cynnal yno drwy'r wythnos. Mae grŵp canolfan oriau dydd newydd 'Friends of Gilfach Goch' wedi'i sefydlu'n ddiweddar er mwyn gweithio â'r Cyngor i ddatblygu'r cyfleuster ymhellach er lles y gymuned leol.

# Cymunedau sy'n Oed Gyfeillgar

(Rhwydwaith Rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO))



**Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gweithio â phartneriaid yn y gymuned yn gweithio tuag at gael ei gydnabod yn Gymuned sy'n Gyfeillgar i Oed a dod yn aelod o Ddinasoedd a Cymunedau Cyfeillgar i Oed WHO.**

Mae nifer o'r gweithgareddau yn cael eu cynnal er mwyn cyfrannu at y menter hwnnw gan gynnwys y rhai canlynol:

## **Ffrwd Gwaith Ymgysylltu â'r Gymuned - Cwm Taf Morgannwg**

- Mae Cadeirydd newydd wedi'i benodi, sef Syd Dennis o garfan Datblygu'r Gymuned y Cyngor.
- Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 29 Tachwedd 2023 - Rhowch wybod os hoffech chi ymuno â'r grŵp ffrwd gwaith yma.

## **Strategaeth Toiledau Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal adolygiad statudol o'r Strategaeth Toiledau Lleol erbyn mis Mai 2023. Cyflwynwyd Strategaeth Toiledau Lleol 2023-2028 wedi'i hadolygu i'r Cabinet i'w drafod ym mis Medi 2023 a derbyniwyd cymeradwyaeth lawn.

## **Man Newid - Canolfan Cymuned y Maerdy**

Trwy weithio mewn partneriaeth â The Arts Factory, byddwn ni'n gosod Man Newid yng Nghanolfan Cymuned y Maerdy. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y cyfleuster newydd yma ar gael erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf.

Modiwl e-Ddysgu Dementia CBSRhCT - Rhaglen Ymsefydlu Corfforaethol ar gyfer 150 o staff y Cyngor.

Cyfeillion Dementia - Mae 34 o aelodau o staff allanol a gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant i fod yn Gyfeillion Dementia yn ystod cyfnod Ebrill-Medi 2023.

## **Ymgyrch Gwranddo ar Dementia**

- Cafodd 7 o wirfoddolwyr eu recriwtio
- Ymgyngorwyd â 26 o gleifion mewn meddygfeydd teulu yng Ngogledd Dwyrain Taf-elái
- Ymgyngorwyd ag 8 grŵp cymuned

## Cadwch lygad am - ddatblygiadau ar y gweill

### Costau Byw Lleol - Cymorth i Drigolion

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf a phartneriaid allweddol yn awyddus i gefnogi trigolion lleol sy'n wynebu caledi o ganlyniad i'r Argyfwng Costau Byw.

**Bwriwch olwg ar ein tudalen Cymorth i Drigolion a chlicio ar 'Cais am Gymorth'.**

### Cymorth Costau Byw Lleol - Cymunedau

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant gaeaf y llynedd, byddwn ni'n gweithio gyda grwpiau cymuned a sefydliadau nid er elw i ddarparu cymorth i Ganolfannau Croeso yn y Gaeaf.

**Cadwch lygad ar ein tudalen i weld ble mae'r Canolfannau Croeso yn y Gaeaf.**

### Polisi Trosglwyddo Asedau Cymuned (CAT)

Bydd y Cabinet yn gwylio cyflwyniad am Bolisi Trosglwyddo Asedau'r Gymuned yn fuan, ar y cyd â Chynllun Rheoli Asedau Corfforaethol CBSRhCT 2024-2030.

Bwriwch olwg ar ein gwefan CAT i weld manylion am asedau'r Cyngor sy'n cael eu rheoli gan bartneriaid yn y gymuned.

**Trosglwyddo Asedau Cymunedol**



# CYSYLLTWCH Â'R GARFAN



[RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda  
Cynon Taf \(rctcbc.gov.uk\)](http://rctcbc.gov.uk)



[rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk](mailto:rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk)



01443 425368

